

## Cyfnod y clo – Isla Boyd

I fi, roedd cyfnod y clo yn amser anodd, ar ôl cael cymaint o ryddid i fynd a dod fel yr oeddwn i eisiau, roedd yn gymaint o sioc pan doeddwn i ddim yn gallu mynd i unman na gwneud unrhywbeth. Roedd rhaid i mi aros adref am gyfnod hir heb weld neb heblaw am fy nheulu agos.

Yn gyflym roedd rhaid imi addasu i'r ffordd newydd yma o fyw, dechreuais wneud pethau newydd fel cadw'n heini efo Joe Wicks bob bore i ddechrau fy niwrnod. Fe wnes i hyn gyda fy nhad, mam a fy nwy chwaer yn fy stafell fyw, teimlais yn well ar ôl wneud yr ymarfer corff yma. Roeddwn i'n casau'r ffaith nad oeddwn yn gallu mynd yn bellach na'r ardd gefn ond roeddwn yn ffodus iawn i gael trampolin a dysgais sut i wneud fflipiau newydd na allwn i byth eu meistrolï cyn cyfnod y clo.

Roeddwn yn hapus iawn pan glywais bod cyfnod y clo wedi dod i ben. Ond ni anghofiaf fyth yr atgofion a wnes i efo fy nheulu. Dechreuais dod yn nes at Cerys ac Isabel sef fy nwy chwaer. Dwi wastad wedi bod yn agos atyn nhw ond mae gorfod treulio bob eiliad o bob dydd gyda rhywun yn gallu newid pethau ac roeddwn i'n ffodus ei fod wedi gwneud y perthasoedd yn gryfach. Y peth gorau am gynod y clo oedd treulio amser efo Mam, Dad, Cerys ac Isabel. Gwylion ni holl ffilmiau'r 'Avengers', chwaraeon ni lawer o gemau bwrdd newydd, ac enillais i'r rhan fwyaf ohonyn nhw ac rydw i wan yn arbenigwr ar wneud bara banana.

Ar adegau roedd yn anodd iawn bod tu mewn, roedd y ffaith doeddwn i ddim yn gallu gweld fy Nain a Taid neu fy ffrindiau yn fy wneud i'n drist. Roedd hyn yn amser anodd i mi. Er na allwn weld fy ffrindiau roeddwn dal yn gallu siarad efo nhw ar y ffon ac roedd Facetime yn wych, doedd hyn dal ddim mor dda a gweld nhw mewn person a sgwrsio, a dyma'r un o'r pethau roeddwn yn edrych mlaen at fwyaf pan ddaeth cyfnod y clo i ben.

Roedd cyfnod y clo wedi cael effaith ar bawb. Yr un ffordd y cafodd cyfnod y clo effaith ar y gymuned oedd bod rhaid i bobl roi'r gorau i weithio, roedd pobl yn cael eu cynghori i weithio gartef fel nad oedd coronafeirws yn lledu. Roedd llyfudd yn ddistaw iawn pan roedd pawb yn eu tai. Roedd rhai pobl yn teimlo'n unig, yn enwedig yr henoed nad oeddent yn gallu ymweld â'u teulu na chael teulu draw i ymweld â nhw, yn enwedig dros y Nadolig.

"Daw eto haul ar fryn", dyma'r dywediad sydd wedi fy helpu trwy'r cyfnod clo. Dwi'n gweld yr haul yn dechrau ymddangos yn araf o'r tu ôl i'r bryn, bywyd yn araf yn mynd yn ôl i ryw fath o normal. Gobeithio byddaf yn gallu mynd i Brixham dros yr Haf i weld fy nheulu.